Tachwedd 2025

# Cynllunio Strategol Ynni Rhanbarthol

## Methodoleg ddrafft – Crynodeb Gweithredol



# Crynodeb Gweithredol

**Beth yw RESP a pham mae ei angen?**

Y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP) fydd y cynlluniau strategol ynni cyflawn cyntaf o'u math a fydd yn siapio'r cynlluniau ynni ar draws pob cenedl a rhanbarth yn y dyfodol. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu datblygu'n lleol ac ar y cyd gan aelodau ymroddedig ein tîm sy'n byw yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau. Ynghyd â chynlluniau strategol eraill NESO, bydd y rhain yn creu cynllun ynni cyson a chydlynol ar draws dosbarthu a throsglwyddo, methan, hydrogen a thrydan am y tro cyntaf ledled Prydain.

Datblygwyd rôl Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP) i gefnogi blaenoriaethau strategol ehangach er mwyn sicrhau bod system ynni ddiogel yn cael ei darparu, galluogi twf economaidd a helpu i baratoi'r ffordd tuag at ddyfodol ynni cynaliadwy i bawb. Fe wnaeth Ofgem gyfarwyddo'r Gweithredwr Systemau Ynni Cenedlaethol (NESO) i ymgymryd â rôl RESP ym mis Tachwedd 2023, a gafodd ei ffurfioli ym mis Ebrill 2025[1]. Drwy'r rôl hon, mae dull newydd o gynllunio ynni strategol ar lefel dosbarthu yn cael ei greu, gyda NESO yn cynhyrchu Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol ar gyfer Cymru, yr Alban a naw rhanbarth yn Lloegr. Am y tro cyntaf erioed ym Mhrydain, byddwn yn mabwysiadu dull strategol, ynni cyflawn, o'r gwaelod i fyny, o ran sut mae ein systemau ynni yn cael eu cynllunio'n y dyfodol. Bydd y cynlluniau strategol hyn yn darparu mewnbynnau allweddol i'r cynlluniau busnes a ddatblygir gan rwydweithiau dosbarthu nwy a thrydan, yn ogystal ag unrhyw un sy'n ymwneud â chynllunio a datblygu seilwaith ynni. Bydd y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn ategu cynlluniau strategol eraill NESO ar draws Prydain, fel y Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP) a'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP).

**Y dirwedd cynllunio ynni strategol a pholisi ynni ehangach**

Mae Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP) yn rhan sylfaenol o uchelgeisiau NESO i gyflawni dull integredig, system gyfan, o'r cynllunio ynni strategol. Yn ganolog i'r cyfan y mae ein cynlluniau ynni strategol sydd wedi'u cynllunio i gynnig sicrwydd hirdymor, i hyrwyddo twf economaidd, ac i fuddsoddiad a chefnogi datblygiad y gadwyn gyflenwi, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer y trawsnewid ynni. Bydd yr elfennau hyn yn cael eu datblygu fel rhannau gwahanol ond cydgysylltiedig o un cynllun cydlynol a bydd pob un yn gweithredu ar gylchred tair blynedd. Bydd pob cynllun yn cyfrannu persbectif unigryw - SSEP ar gyfer cynhyrchu a storio, CSNP ar gyfer rhwydweithiau trosglwyddo cenedlaethol, a RESP ar gyfer cynllunio systemau mwy lleol - fel y crynhoir yn Ffigur 1.

---

[1] Ofgem, Decision on the *RESP policy framework (Ebrill 2025)* -
https://www.ofgem.gov.uk/sites/default/files/2025-04/RESP-policy-framework-decision.pdf




Ffigur 1: Rhyngweithio rhwng cynlluniau ynni strategol NESO

O safbwynt ehangach, bydd CSNP, SSEP, a RESP yn rhyngweithio â pholisïau, rheoliadau a fframweithiau cynllunio ehangach. Byddant hefyd yn ystyried cynlluniau, amcanion polisi a thargedau a osodwyd ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddiadau fel y Cynllun Gweithredu Cysylltiadau (CAP)[2], Diweddariad yr Adolygiad o Drefniadau Marchnadoedd Trydan (REMA)ar Brisio Cenedlaethol Diwygiedig[3], Cynlluniau'r Sector yn y Strategaeth Ddiwydiannol[4], y Strategaeth Hydrogen[5], Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial (AI)[6], y Cynllun Cartrefi Cynnes[7] yn ogystal â systemau cynllunio a chydsynio ar draws llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru. Ochr yn ochr â'r cyhoeddiadau hyn, bydd cynlluniau ynni strategol NESO yn cael eu siapio gan ddata o ffynonellau lleol ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, drwy ddefnyddio mewnbynnau fel cynlluniau twf lleol, data trafnidiaeth a thai lleol, proffiliau clwstwr diwydiannol a mentrau ynni cymunedol a Chynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol a Strategaethau Gwres ac Effeithlonrwydd Ynni Lleol lle maent yn bodoli. Bydd hyn yn sicrhau bod blaenoriaethau

[2] Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, *Connections Action Plan* (Tachwedd 2023) - https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6581730523b70a000d234bb0/connections-action-plan-desnz-ofgem.pdf
[3] Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, *Review of Electricity Markets Arrangements (REMA)* (Gorffennaf 2025) - https://assets.publishing.service.gov.uk/media/686f71412557debd867cbeff/review-of-electricity-market-arrangements-rema-summer-update-2025.pdf
[4] Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net*, Industrial Strategy Sector Plans (Medi 2025)* - https://www.gov.uk/government/publications/industrial-strategy-sector-plans/sector-plans
[5] Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, Hydrogen update to the market (Gorffennaf 2025) - https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6880b2139fab8e2e86160efe/hydrogen-update-to-the-market-2025.pdf
[6] Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, *AI Opportunities Action Plan* (Ionawr 2025) - https://www.gov.uk/government/publications/ai-opportunities-action-plan/ai-opportunities-action-plan
[7] Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, *Warm Homes Plan press release* (Tachwedd 2024) - https://www.gov.uk/government/news/help-to-save-households-money-and-deliver-cleaner-heat-to-homes

lleol, uchelgeisiau cymunedol, ac anghenion ynni sy'n benodol i leoedd yn cael eu hadlewyrchu'n ystyrlon ym mhob cynllun.

**Y RESP trosiannol**

Cyn sefydlu rôl lawn y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP), gofynnodd Ofgem i NESO ddatblygu: "Allbwn RESP trosiannol erbyn Ionawr 2026 i ddarparu cymaint o fudd ag sy'n ymarferol i gefnogi'r broses o osod rheolaethau prisiau ED3 tra bod y swyddogaeth RESP yn datblygu i'w gallu llawn" 8. Gan ganolbwyntio'n bennaf ar y cynlluniau buddsoddi dosbarthu trydan, mae gan hyn gwmpas mwy cyfyngedig na'r fethodoleg lawn a ddisgrifir yma er bod elfennau cyffredin y mae'r fethodoleg hon yn eu datblygu ymhellach. Agorodd yr ymgynghoriad tRESP ar 23 Medi 2025 a daeth i ben ar 3 Tachwedd 2025 gyda'r allbynnau tRESP terfynol i'w cyhoeddi ym mis Ionawr 2026[9].

**Ymgysylltu allanol a llywodraethu**

Mae ein cynlluniau ymgysylltu a llywodraethu allanol wedi'u hadeiladu ar egwyddorion arweiniol y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP), fel y'u nodir gan Ofgem yn eu Penderfyniad ar Fframwaith Polisi RESP ym mis Ebrill 2025 [10], sef bod yn seiliedig ar le, yn dryloyw a chydweithredol, ac yn deg. Byddwn yn cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn drwy ein timau sydd yng nghenhedloedd a rhanbarthau Prydain a thrwy'r mecanweithiau ymgysylltu a llywodraethu a roddwyd ar waith i gefnogi datblygiad y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol.

Yn yr ymgynghoriad hwn, fe wnaethom nodi ein dull arfaethedig o ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid. Bydd ymgysylltu â RESP yn rhan o'r rhaglen ymgysylltu ehangach i gefnogi datblygiad cynlluniau ynni strategol NESO. Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae pobl leol ar fin chwarae rôl allweddol wrth helpu i siapio systemau ynni'r dyfodol er mwyn sicrhau y cyflawnir uchelgeisiau a blaenoriaethau lleol. Rydyn ni'n argymell ystod o fecanweithiau ymgysylltu i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ymgysylltu â RESP.

Yn ogystal, byddwn yn darparu cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol a chynrychiolwyr ynni lleol i'w galluogi i ymgysylltu â'u Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn effeithiol ac i ddylanwadu arnynt. Bydd y cymorth hwn yn esblygu dros amser, gan ganolbwyntio i ddechrau ar sicrhau bod ein fforymau llywodraethu wedi'u sefydlu'n effeithiol ac yn dechrau darparu adnoddau digidol. Bydd hyn yn arwain at gyngor mwy penodol a chefnogaeth ddigidol a gynlluniwyd i wneud y mwyaf o werth y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol i randdeiliaid ehangach. Rydyn ni'n ymgynghori ar ba elfennau cymorth sydd angen eu blaenoriaethu.

---

[8] Ofgem, *Open Letter regarding the scope of the transitional Regional Energy Strategic Plan* (Chwefror 2025) - https://www.ofgem.gov.uk/sites/default/files/2025-02/open-letter-scope-of-transitional-regional-energy-strategic-plan.pdf

[9] Gweithredwr Systemau Ynni Cenedlaethol, *transitional Regional Energy Plan Consultation* (Medi 2025) - https://www.neso.energy/what-we-do/strategic-planning/regional-energy-strategic-planning-resp/transitional-regional-energy-strategic-plan-tresp-consultation

[10] Ofgem, *Decision on* the *RESP policy framework (Medi 2025)* - https://www.ofgem.gov.uk/sites/default/files/2025-04/RESP-policy-framework-decision.pdf

Bydd NESO yn sefydlu byrddau a gweithgorau strategol i gefnogi datblygiad y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol. Bydd byrddau strategol yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cynrychiolwyr rhwydweithiau dosbarthu trydan a nwy, cyrff traws-sector perthnasol a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, gydag isafswm o 16 o aelodau. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n amlinellu ein cynigion ar gyfer dewis aelodau'r bwrdd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda grwpiau a sefydliadau awdurdodau lleol cyfredol i nodi aelodau bwrdd priodol a phroses ymgeisio ar gyfer aelodau'r bwrdd ar draws y sector. Gofynnir i bob bwrdd strategol gymeradwyo eu Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP). Rydyn ni'n argymell mecanwaith pleidleisio bloc a throthwy cymeradwyo o ddwy ran o dair ar gyfer cymeradwyo pob un o'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol. Mae hyn er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb pleidleisio ar draws y byrddau strategol, a fydd, yn fwriadol, â chydbwysedd gwahanol o ran aelodaeth.

Yn ogystal â'r byrddau a'r gweithgorau strategol, byddwn yn sefydlu Pwyllgor Llywio Prydain i roi goruchwyliaeth, cyngor arbenigol a chydlynu ar lefel Prydain o'r holl Gynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol. Bydd y Pwyllgor yn cefnogi aliniad â chynlluniau ledled Prydain, gan gynnwys yr SSEP a'r CSNP, a bydd yn helpu i sicrhau cydlyniant ac effeithlonrwydd ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau. Ni fydd gan y Pwyllgor awdurdod i wneud penderfyniadau ar Gynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol unigol; bydd y cyfrifoldeb hwnnw'n parhau gyda'r byrddau strategol perthnasol.

Elfennau'r RESP

Ar gyfer pob cenedl a rhanbarth, bydd NESO yn cynhyrchu pum elfen, sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio pob un o'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP). Mae'r elfennau yn cyflawni yn erbyn egwyddorion RESP o fod yn seiliedig ar le, yn canolbwyntio ar y system ynni gyflawn, yn cael eu harwain gan weledigaeth ac yn rhagweithiol. Mae rhai o'r meysydd yn gymhleth i'w cyflawni, ac yn yr ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n amlinellu manylion sut rydyn ni'n disgwyl adeiladu'r modelau a'r gallu y bydd eu hangen arnom ni. Rydyn ni'n cydnabod bod modelau, data a galluoedd eisoes yn bodoli ar gyfer llawer o'r elfennau a allai helpu i gyflawni rhai o'r allbynnau y mae angen i ni eu datblygu. Rydyn ni'n dechrau archwilio defnyddio'r modelau a'r data presennol i osgoi dyblygu gwaith sydd wedi'i wneud yn barod, ac yn croesawu adborth ar fodelau a ffynonellau data eraill y gallem eu harchwilio. Rydyn ni hefyd yn croesawu adborth ar sut gallai rhanddeiliaid ddefnyddio'r allbynnau o'r elfennau hyn mewn cymwysiadau y tu hwnt i gynllunio rhwydweithiau dosbarthu. Ceir crynodeb o'r pum elfen isod.

1. **Cyd-destunau'r Cenhedloedd a'r Rhanbarthau:** Golwg ar amodau a blaenoriaethau lleol, wedi'u llywio gan ymgysylltiad yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau a setiau data. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i adlewyrchu - yn hytrach na disodli - cynlluniau ac uchelgeisiau lleol.
2. **Llwybrau:** Rhagamcanion wedi'u modelu'n ofodol o'r cyflenwad a'r galw am ynni yn y dyfodol ym mhob cenedl a rhanbarth. Bydd y rhain yn cynnwys un llwybr byr dymor sy'n cwmpasu'r deng mlynedd nesaf, a llwybrau hirdymor lluosog i adlewyrchu ansicrwydd, sy'n ymestyn at 2050 o leiaf. Bydd llwybrau'n cael eu modelu i fanylder digonol er mwyn cefnogi cynllunio lleol a darparu sail fanwl i ategu gwaith cynllunio rhwydweithiau gan rwydweithiau dosbarthu trydan a nwy.

3. **Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson:** Dyma faes cymhleth o fewn y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol. Maent yn canolbwyntio ar helpu rhwydweithiau dosbarthu trydan a nwy i gynllunio'n gyson, ac i drosi'r llwybrau yn rhagolygon galw brig, sy'n hanfodol i gynllunio rhwydweithiau. Felly byddant yn llywio cysondeb wrth asesu effeithiau rhwydweithiau ledled Prydain, ac felly buddsoddiad yn y dyfodol, gan ganiatáu ar gyfer amrywiad i adlewyrchu gwahaniaethau ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau (er enghraifft, gwahaniaethau hinsoddol). Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno fel un allbwn ar draws pob Cynllun Ynni Strategol Rhanbarthol i'w defnyddio'n gyson gan rwydweithiau dosbarthu trydan a nwy.
4. **Cyd-destun gofodol:** Golwg ofodol o lwybrau ynni wedi'i gosod yn erbyn data capasiti rhwydweithiau dosbarthu i amlygu meysydd o angen o fewn y system lle gallai fod angen buddsoddiad. Bydd hyn yn ymgorffori data gofodol y system gyflawn i gefnogi cynllunio cydlynol a gwybodus ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau.
5. **Manyleb Anghenion Buddsoddi Strategol:** Nodi meysydd o angen ynni ym mhob cenedl a rhanbarth sy'n strategol arwyddocaol ac yn fwy cymhleth oherwydd amserlenni, daearyddiaeth, neu gyfaddawdu gofynnol rhwng mathau o ynni, blaenoriaethau neu randdeiliaid. Bydd yr anghenion hyn, sy'n cael eu galluogi drwy'r buddsoddiad rhwydwaith priodol, yn datgloi gwerth ar draws y system, yn cyflymu datgarboneiddio, ac yn cefnogi datblygiad economaidd hirdymor.

Dull digidol a data

Mae ein ffordd o ymdrin ag elfennau digidol a data yn hanfodol i gynhyrchu Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol credadwy sy'n hygyrch ac yn dryloyw i ddefnyddwyr. Rydyn ni'n rhoi datblygiad gallu digidol a data wrth wraidd sut rydyn ni'n cynllunio ac yn cyflwyno'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol, gan gefnogi'r broses o gyflwyno elfennau'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol a'n galluoedd o ran ymgysylltu, cefnogi cyfranogwyr lleol a llywodraethu.

Bydd gallu digidol a data yn ein galluogi i weithio ar y cyd ac yn dryloyw, gan leihau dyblygu a gwneud y defnydd gorau o wybodaeth gyfredol. Byddwn yn adeiladu ar setiau data sefydledig a systemau dadansoddol o fewn a'r tu allan i NESO, gan anelu at osgoi dyblygu modelu diangen a cheisiadau am ddata, ac yn sicrhau llif effeithlon o wybodaeth wrth i ni ddatblygu'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol.

Bydd adnoddau digidol hefyd yn gwneud y broses RESP yn fwy hygyrch. Mae dull digidol yn gyntaf yn cefnogi ymgysylltu byw â data, yn galluogi gwelliannau iteraidd, ac yn helpu rhanddeiliaid i ryngweithio'n uniongyrchol ag allbynnau dadansoddol. Bydd heriau yn y maes hwn wrth i ni ddatblygu'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol, yn enwedig oherwydd na fydd y ffynonellau data sydd ar gael wastad yn gyflawn neu o ansawdd digonol i'w defnyddio. Byddwn yn rhoi proses dilysu data cadarn ar waith i liniaru'r risgiau hyn.

Bydd NESO yn dilyn arfer gorau cydnabyddedig o ran cynllunio digidol, gan flaenoriaethu hygyrchedd, defnyddioldeb a dibynadwyedd. Bydd model cyflenwi iteraidd sy'n canolbwyntio ar randdeiliaid yn lleihau risg ac yn gwella ansawdd cynnyrch. Bydd

cyd-greu gyda rhanddeiliaid yn sicrhau bod adnoddau digidol yn diwallu anghenion y byd go iawn. Bydd elfennau digidol allweddol RESP yn cynnwys: platfform delweddu data rhyngweithiol, porth cyflwyno data diogel, a storfa ar-lein o allbynnau RESP a dogfennaeth ategol.

Bydd ein cyflawni digidol yn esblygu dros amser, wedi'i arwain gan adborth defnyddwyr a datblygiadau technolegol, gan sicrhau bod platfformau NESO yn reddfol, yn addysgiadol ac yn gynhwysol.

**Sicrwydd Cynllunio Rhwydweithiau**

Mae Sicrwydd Cynllunio Rhwydweithiau (NPA) yn weithgaredd allweddol y byddwn yn ei ymgymryd ag ef ar ôl creu'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RSAP). Mae hyn yn cynnwys cynnal adolygiad wedi'i dargedu o gynlluniau buddsoddi strategol sy'n gysylltiedig â llwyth rhwydweithiau dosbarthu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad pob un o'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol.

Mae ein dull arfaethedig yn cynnwys tri gweithgaredd: Alinio, Datrys ac Adolygu. Bydd y rhwydweithiau dosbarthu yn sicrhau bod eu cynllunio rhwydwaith, sy'n gysylltiedig â llwyth, yn gydnaws â'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol. Lle na allant wneud hyn, bydd tîm RESP yn gweithio'n rhagweithiol ac ar y cyd â'r rhwydweithiau dosbarthu i ddeall ac i ddatrys achosion lle nad ydynt yn gydnaws . Yna byddwn yn cynnal adolygiad wedi'i dargedu o gynlluniau busnes pob rhwydwaith dosbarthu, sy'n gysylltiedig â llwyth, ac yn darparu adroddiad i Ofgem i gynorthwyo eu gwerthusiadau o gynlluniau busnes.

**Sicrwydd allbynnau RESP**

Oherwydd cymhlethdod datblygu Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol (RESP) ac effaith bosib y canlyniadau ar ddefnyddwyr Prydain, bydd y Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn destun lefelau uchel o sicrwydd ar draws pob agwedd ar y ddarpariaeth. Bydd y dull a ddefnyddir i sicrhau methodoleg RESP ac allbynnau RESP yn gyson â'r hyn a ddefnyddir ar draws NESO ac ar gyfer SSEP a CSNP ac yn cyd-fynd â Llyfr AQuA llywodraeth y DU[11]. Rydyn ni'n cwmpasu darpariaeth rhaglenni a sicrwydd technegol yn ein ffordd o weithio, a fydd yn cael ei ddarparu gan fodel 'tair llinell amddiffyn'. Bydd tîm RESP NESO yn darparu'r amddiffyniad llinell gyntaf, tîm NESO arall fydd yn darparu'r ail linell, a thrydydd parti annibynnol fydd yn darparu'r drydedd linell.

**Amserlenni ar gyfer RESP**

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 16 Ionawr 2026. Bydd y fethodoleg derfynol yn cael ei chyhoeddi yn ystod Haf 2026, yn amodol ar gymeradwyaeth Ofgem a'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ). Ar ôl cael sêl bendith, rydyn ni'n disgwyl cynnal y byrddau strategol cyntaf yn hwyrach yn 2026.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio drwy'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol cyntaf ac yn cynnal sgyrsiau parhaus ar hyn gydag Ofgem a'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) i gwblhau'r amserlen. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n nodi rhai o'r heriau wrth gyflawni elfen Cyd-destun Gofodol RESP o fewn yr

---

[11] Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth, *The AQuA Book* (Gorffennaf 2025) - https://www.gov.uk/guidance/the-aqua-book

amserlen wreiddiol, sef Rhagfyr 2027. Fodd bynnag, mae yna ddylanwadau eraill ar ein gwaith darparu nad ydynt mor hawdd i ni eu rheoli, megis y penderfyniadau a wneir gan y Byrddau Strategol, penderfyniadau polisi gan lywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru, a Ofgem, a dibyniaeth yr RESPau ar gynlluniau strategol a data eraill. Er mwyn llywio'r broses nesaf o reoli prisiau dosbarthu nwy, bydd angen i ni gyhoeddi'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol yn llawn erbyn mis Rhagfyr 2028. Disgwyliwn i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt i'r amserlenni cyflawni gael eu hadlewyrchu yn nhrwydded NESO.

**Crynodeb**

Mae’r ymgynghoriad hwn yn gam sylweddol o ran cynllunio ynni strategol gan ddod â chynlluniau ynni Prydain gyfan a lleol at ei gilydd. Am y tro cyntaf erioed ym Mhrydain, byddwn yn mabwysiadu dull strategol, ynni cyflawn, o'r gwaelod i fyny, o ran sut mae ein systemau ynni yn cael eu cynllunio’n y dyfodol. Mae'n defnyddio gwersi o'r gwaith a wnaed ar tRESP, gan ymgorffori egwyddorion arweiniol RESP ymhellach er mwyn cyflawni cynlluniau a fydd yn galluogi cenhedloedd a rhanbarthau Prydain i gyflawni eu huchelgeisiau twf economaidd a chynaliadwyedd yn effeithlon. Edrychwn ymlaen at glywed wrthych chi ar sut gallwn wella ein cynlluniau i ddatblygu a chyflawni'r Cynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol.